

Mantell Gwynedd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

9. Asedau

9.6 Eiddo deallusol



Mae **Eiddo deallusol**, yn caniatáu i bobl fod yn berchen ar eu creadigedd a'u harloesedd eu hunain yn yr un modd ag y gallant fod yn berchen ar eiddo ffisegol. Gall perchennog Eiddo Deallusol (ED) reoli'r defnydd ohono a chael ei wobrwyo am y defnydd a wneir ohono, ac mae hyn yn annog rhagor o arloesedd a chreadigedd er budd pawb.

Mewn rhai achosion mae ED yn codi'r mater o warchod syniadau, ond mewn meysydd eraill bydd yn rhaid ymhelaethu ar syniad cyn y gall gwarchodaeth godi. Ni fydd yn bosib, yn aml, gwarchod ED ac ennill hawliau ED oni bai fod cais wedi'i gyflwyno amdanynt a'u bod wedi'u caniatáu, ond mae rhywfaint o warchodaeth ED, fel hawlfraint, yn codi'n awtomatig, heb orfod cofrestru, cyn gynted ag y ceir cofnod ar ryw ffurf neu'i gilydd, o'r hyn sydd wedi'i greu.

Dyma'r pedwar prif fath o ED:

- **Patentau** ar gyfer dyfeisiau - cynnyrch a phrosesau newydd a gwell y gellir eu defnyddio ym maes diwydiant.
- **Nodau masnach** i adnabod brandiau - nwyddau a gwasanaethau, gan ganiatáu gwahaniaethu rhwng gwahanol fasnachwyr.
- **Hawliau dyluniadau** ar gyfer ymddangosiad y cynnyrch - yn achos rhan o'r cynnyrch neu'r cyfan ohono yn deillio o nodweddion, yn fwyaf arbennig, y llinellau, yr amlinellau, y lliwiau, y siâp, gwedd neu ddefnyddiau'r cynnyrch ei hun neu'i addurniad.
- **Hawlfraint** ar gyfer deunydd llenyddol ac artistig, cerddoriaeth, ffilmiau, recordiadau sain a darllediadau, gan gynnwys meddalwedd ac aml-gyfrwng.

Beth yw patent?

Mae patent yn rhoi'r hawl i ddyfeisiwr am gyfnod cyfyngedig o amser (hyd at 20 mlynedd yn y DU) i atal eraill rhag gwneud, defnyddio neu werthu ei ddyfais heb ganiatâd y dyfeisiwr.

I gael gwarchodaeth patent rhaid i ddyfais:

- fod yn newydd ac yn anadnabyddus ar draws y byd cyn llenwi ffurflen gais
- meddu ar gam dyfeisgar, nid addasiad amlwg neu syml, na chyfuniad o gynnyrch sy'n bod eisoes

- meddu ar allu cymwysiadau diwydiannol, gan gael effaith dechnegol.

Gallai bodolaeth patent ar ei ben ei hun fod yn ddigon i atal eraill rhag ceisio camfanteisio ar ddyfais. Os nad yw'n ddigon, fodd bynnag, mae'n rhoi'r hawl i'r dyfeisiwr gymryd camau cyfreithiol i'w hatal rhag camfanteisio ar y ddyfais, a'r hawl i hawlio iawndal.

Mae patent hefyd yn galluogi'r dyfeisiwr i wneud y canlynol:

- gwerthu'r ddyfais a'r holl hawliau ED
- trwyddedu'r ddyfais i rywun arall ond cadw'r holl hawliau ED
- trafod y ddyfais ag eraill er mwyn sefydlu busnes wedi'i seilio o amgylch y ddyfais.

Mae'r broses ymgeisio am batent yn gallu bod yn weddol gymhleth a hirfaith, ond mae'r manylion llawn ar gael ar [wefan](#) y Swyddfa Eiddo Deallusol.

Beth yw nod masnach?

Nod masnach yw unrhyw arwydd sy'n gallu gwahaniaethu nwyddau a gwasanaethau un masnachwr oddi wrth nwyddau a gwasanaethau masnachwr arall. Gall gynnwys geiriau, logos, lliwiau, sloganau, siapiau tri-dimensiwn ac weithiau synau ac ystumiau.

Mae nod masnach, felly, yn 'fathodyn' masnachol, a ddefnyddir fel dull marchnata er mwyn i fasnachwyr allu adnabod cynnyrch masnachwr penodol. Er mwyn gallu ei gofrestru yn y DU, rhaid i nod masnach ateb meini prawf penodol, gan gynnwys y gallu i gael ei gynrychioli mewn modd graffigol (hynny yw, mewn geiriau a/neu luniau), bod yn nodedig, a ddim yn dwyllodrus. Mae'r broses ymgeisio yn weddol syml, a gellir cael gafael ar y ffurflen berthnasol oddi ar [wefan](#) y Swyddfa Eiddo Deallusol.

Rhaid adnewyddu nod masnach cofrestredig bob 10 mlynedd er mwyn ei gadw mewn grym. Os oes gennych nod masnach cofrestredig, gallwch roi'r symbol ® wrth ymyl i rybuddio eraill rhag ei ddefnyddio. Serch hynny, mae'n drosedd i ddefnyddio'r symbol hwn ar gyfer nod masnach nad yw wedi'i gofrestru.

Beth yw hawliau dyluniadau?

Mae dyluniad yn cyfeirio at ymddangosiad rhan o gynnyrch neu'r cynnyrch cyfan yn deillio, yn fwyaf arbennig, o nodweddion llinellau, amlinellau, lliwiau, gwedd neu ddefnyddiau'r cynnyrch neu'i addurniad. Mae hawliau dyluniadau'n gwarchod ymddangosiad y cynnyrch cyfan neu ran ohono, a gallant fod wedi'u cofrestru neu beidio:

- Dyluniadau cofrestredig – Hawl gyfreithiol sy'n gwarchod ymddangosiad cynnyrch/rhan o gynnyrch yn y wlad y mae wedi'i gofrestru ynddi. Rhaid i

ddyluniad cofrestredig fod yn newydd, o gymeriad unigol, a heb ei eithrio gan statud. Mae'r warchodaeth yn parhau am ddim mwy na 25 mlynedd, gan adnewyddu cofrestriadau bob pum mlynedd. Mae cost gymharol isel ynghlwm â chofrestru dyluniad ac mae'n arbennig o briodol ar gyfer diwydiannau megis ffasiwn, lle mae dyluniad yn hollbwysig wrth werthu'r cynnyrch.

- Dyluniadau heb eu cofrestru – Cyfeiria'r term 'Hawl Dyluniad' at y warchodaeth gyfreithiol benodol sydd ar gael i ddyluniadau heb eu cofrestru yn y DU. Mae Hawl Dyluniad yn galluogi perchennog y dyluniad i atal unrhyw un rhag copïo siâp neu gyfluniad yr eitem, ond nid yw'n rhoi dim gwarchodaeth iddynt dros yr agweddau 2-ddimensiwn, e.e. patrymau arwynebol. Mae gwarchodaeth wedi'i gyfyngu i'r DU, ac yn parhau naill ai am 10 mlynedd ar ôl marchnata'r eitemau sy'n defnyddio'r dyluniad am y tro cyntaf, neu 15 mlynedd ar ôl i'r dyluniad gael ei greu – pa bynnag un ddaw gyntaf. Yn ystod 5 mlynedd diwethaf y cyfnod hwnnw, mae'r dyluniad yn amodol ar Drwydded Hawl. Golyga hyn fod gan unrhyw un hawl i gael trwydded i wneud a gwerthu cynnyrch sy'n copïo'r dyluniad.

Gall perchennog dyluniad wneud cais i Gofrestrfa Dyluniadau'r Swyddfa Eiddo Deallusol i gofrestru ei ddyluniad: mae'r manylion llawn ar gael ar [wefan](#) y Swyddfa Eiddo Deallusol. O ran Hawliau Dyluniadau heb eu cofrestru, mae perchennog yn cael ei warchod pan fydd yn creu'r dyluniad, ond cynghorir iddo gadw nodyn o ba bryd y bu iddo gofnodi'r dyluniad am y tro cyntaf a pha bryd y rhoddwyd eitemau, a wnaed gan ddilyn y dyluniad, ar werth neu ar log am y tro cyntaf. Y rheswm dros hyn yw rhag ofn i'r perchennog gael ei herio ynghylch ei hawliau dros y dyluniad, neu os yw'n credu bod rhywun yn defnyddio'r dyluniad heb ei ganiatâd.

Beth yw hawlfraint?

Mae hawlfraint yn gymwys i unrhyw gyfrwng, gan warchod gwaith ysgrifenedig, theatraidd, cerddorol ac artistig yn ogystal â ffilmiau, gosodiad llyfrau, recordiadau sain a darllediadau. Mae hawlfraint yn hawl awtomatig, sy'n golygu nad oes angen i chi wneud cais amdano – mae'n dod i fodolaeth cyn gynted ag y mae gwaith wedi'i ysgrifennu, ei recordio neu ei gadw ar gof cyfrifiadur (nid yw'n gwarchod syniadau am waith fodd bynnag).

Mae hawlfraint yn galluogi perchennog i warchod ei ddeunydd gwreiddiol ac atal eraill rhag ei ddefnyddio heb ganiatâd. Gallai bodolaeth hawlfraint ar ei ben ei hun fod yn ddigon i atal eraill rhag ceisio camfanteisio ar ddeunydd perchennog. Os nad yw'n ddigon, fodd bynnag, mae'n rhoi'r hawl i'r perchennog gymryd camau cyfreithiol i'w hatal rhag camfanteisio ar yr hawlfraint, a'r hawl i hawlio iawndal

Er mwyn helpu i warchod unrhyw waith hawlfraint, dylid cynnwys arno'r symbol ©, enw perchennog yr hawlfraint a'r flwyddyn y crëwyd y gwaith. Er nad yw hyn yn hanfodol, bydd yn rhoi gwybod i eraill pryd y dechreuodd cyfnod y warchodaeth ac fe ddylai wedyn fod yn bosib cyfrifo a yw wedi dod i ben ai peidio. Bydd hefyd yn dynodi pwy oedd y perchennog bryd hynny rhag ofn y bydd angen mynd ato i ofyn am ganiatâd i ddefnyddio'r gwaith.

Nid oes cofrestr hawlfraint swyddogol gan fod hawlfraint yn awtomatig. Mae sawl cwmni yn cynnig cofrestri hawlfraint answyddogol, ond dylid meddwl yn ofalus a yw hyn yn wasanaeth defnyddiol i chi cyn i chi ddewis defnyddio gwasanaeth o'r fath.

Hawliau ED eraill

Er bod hawlfraint, dyluniadau, patentau a nodau masnach yn darparu amrywiaeth o warchodaeth ED, ceir sawl ffurf arall o ED a phynciau sy'n berthnasol i ED:

- Hawliau mewn perfformiadau i berfformwyr a'r rhai sy'n recordio perfformiadau.
- Gwarchodaeth i gyfrinachau masnach dan gytundebau cyfrinachedd.
- Hawliau cronfa ddata i rai mathau o gronfeydd data (mae'n bosib y caiff mathau eraill eu gwarchod gan hawlfraint).
- Gwarchodaeth i dopograffeg lled-ddargludydd.
- Hawliau bridwr planhigion mewn mathau o blanhigion.
- Gwarchod arwyddion o darddiad daearyddol.
- Gwarchodaeth dros dechnoleg mynediad amodol ar gyfer darllediadau a mathau eraill o drawsyrant.
- Gwarchodaeth yn erbyn cystadleuaeth annheg dan gyfraith 'twyll'.
- Hawliau cyhoeddi ar gyfer cyhoeddiad cyntaf deunydd y mae'r hawlfraint drosto wedi dod i ben.
- Gwarchodaeth yn erbyn osgoi dyfeisiau amddiffyn copïau.

Mewn rhai gwledydd, caiff hawliau cynhyrchwyr recordiadau sain a darlledwyr eu hadnabod fel hawliau cyfagos neu gysylltiedig. Yn y DU, mae cynhyrchwyr a darlledwyr yn cael gwarchodaeth hawlfraint yn eu deunydd.

Gwybodaeth bellach

Swyddfa Eiddo Deallusol
www.intellectual-property.gov.uk

Sefydliad Eiddo Deallusol y Byd
www.wipo.int

How to protect your intellectual property
www.gov.uk

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Mantell Gwynedd

23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AB
Elusen Gofrestredig: 1068851

Ffôn: 01286 672626

ymholiadau@mantellgwynedd.com

Ffacs: 01286 678430

www.mantellgwynedd.com

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru: 19/02/2014



Ffôn: 0300 111 0124
www.wcva.org.uk